

PWYLLGOR:	Pwyllgor Pensiynau
DYDDIAD:	27/03/2023
TEITL:	Cofrestr Risg
PWRPAS:	Er mwyn deall y risgiau perthnasol i'r Gronfa Bensiwn a chraffu'r Gofrestr Risg
AWDUR:	Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid, Dafydd L Edwards, Cyfarwyddwr y Gronfa Bensiwn Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau

1. CYFLWYNIAD

Mae gan y Gronfa Bensiwn Gwynedd Cofrestr Risg er mwyn adnabod a monitro risgiau sylweddol. Mae'r Gofrestr Risg yn cynnwys y prosesau sydd mewn lle er mwyn lleddfu'r risgiau os yw'n bosibl.

Gan fod nifer o flynyddoedd wedi mynd heibio ers yr adolygiad olaf, rydym wedi gwneud adolygiad manwl o'r gofrestr eleni, gyda nifer sylweddol o'r sgoriau wedi eu addasu, nifer o risgiau newydd wedi eu adnabod a rhai risgiau wedi eu archifo gan eu bod bellach ddim yn berthnasol.

Y risgiau sydd wedi cael eu archifo ydi:

Rhif	Risg	Rheswm am archifo
2.3	Mae'r gronfa yn agored i risgiau diangen a chostau y gellir eu hosgoi oherwydd trefniadau buddsoddi strwythuro'n wael	Risg de minimis oherwydd pwlio ac wedi ehangu y math o fuddsoddiadau sydd gennym.
2.15	Buasai nifer sylweddol o aelodau'r CPLIL yn trosglwyddo eu potiau pensiwn i ddarparwyr Pensiynau eraill er mwyn cael cyfalaf o dan ddeddfwriaeth "Rhyddid a Dewis" y Llywodraeth	Tebygolrwydd o hyn yn ddigwydd yn isel iawn erbyn hyn.
4.1	Nid oes gan Gronfa Bensiwn Gwynedd adnoddau digonol ar gael i gydweithio gydag a darparu'r wybodaeth angenrheidiol i'r bartneriaeth.	Mae'r Bartneriaeth wedi ei sefydlu bellach ac mae staff y Gronfa yn gallu cwrdd a gofynion y Bartneriaeth yn amserol.

Fe rhannwyd y gofrestr gyda'r Bwrdd Pensiwn a'r 06/03/2022 ac mae'r gofrestr hefyd wedi cael ei ddiweddarau yn unol a sylwadau a dderbyniwyd gan aelodau o'r Bwrdd.

Rydym nawr yn rhannu'r gofrestr gyda'r Pwyllgor Pensiynau er mwyn i aelodau deall y risgiau perthnasol i'r Gronfa Bensiwn a hefyd rhoi cyfle i chi ddod ac unrhyw sylwadau neu gynigion i'r cyfarfod.

Mae copi o'r Gofrestr gyfredol ynghlwm fel **Atodiad A**.

Mae'n ddogfen weithredol a bydd adolygiad rheolaidd a diweddariad ar gyfer unrhyw risgiau sylweddol sydd yn datblygu.

2. RÔL Y PWYLLGOR

Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor craffu'r gofrestr risg a dod ac unrhyw sylwadau neu gynigion i'r cyfarfod.